# Arweinydd

## Disgrifiad Swydd

1. **Atebolrwydd**
   - I'r Cyngor Llawn
   - Y Cyhoedd

2. **Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**
   - **Cynnig arweinyddiaeth wleidyddol i'r Cyngor**
     - Bod yn arweinydd gwleidyddol i'r Cyngor; bod yn brif siaradwr gwleidyddol ar ran y Cyngor
     - Cynnal arweinyddiaeth wrth adeiladu consensws gwleidyddol o ran polisïau'r cyngor
     - Creu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned
     - Cynnig arweinyddiaeth gref a chlir o ran cydlynu polisïau, strategaethau a darpariaeth gwasanaethau

   - **Penodi'r Cabinet**
     - Pennu'r portffolios priodol
     - Penodi aelodau etholedig priodol ar gyfer pob portffolio
     - Penodi aelodau cabinet i swyddi yn ôl eu gallu
     - Pennu'r Dirprwy Arweinydd

   - **Cynrychioli a gweithredu fel llysgennad ar gyfer yr Awdurdod**
     - Cynrychioli'r Awdurdod i safon uchel Bod yn ffigwr cryf, cymwys a huawdl i gynrychioli'r Awdurdod yn y Bwrdeistref Sirol, mewn cyrff allanol, ac i'r gymuned yn ei chyfanrwydd
     - Cynrychioli'r Awdurdod ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).
     - Cynnig arweinyddiaeth a chefnogi partneriaethau a sefydliadau lleol
     - Cynrychioli'r Awdurdod mewn cyrff rhanbarthol a chenedlaethol fel sy'n briodol

   - **Cynnig arweinyddiaeth yn y portffolio**
     - Cyflawni rôl deiliad y portffolio fel sy'n briodol, gan ystyried diben a gweithgareddau'r rôl, a manyleb swydd aelod gweithredol

   - **Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio'r cyfarfodydd**
     - Sicrhau bod y Cabinet yn cael ei reoli'n effeithiol drwy reoli'r blaenraglen waith a sicrhau ei ddatblygiad parhaus.

    - Sicrhau bod gwaith y Cabinet yn cwrdd ag amcanion polisi cenedlaethol i gyflawni polisïau’r Cyngor
    - Cynghori a mentora aelodau cabinet eraill wrth eu gwaith
    - Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet ar y cyd â’r Cyfansoddiad

- **Cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau’r Cabinet**
    - Gweithio’n agos gydag aelodau cabinet eraill i sicrhau datblygiad polisïau cyngor effeithiol o fewn fframwaith cyllidebol y Cyngor, a chyflawni gwasanaethau o safon i bobl leol.
    - Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau’r Cabinet unwaith y maent wedi’u gwneud

- **Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**
    - Cysylltu â’r Prif Weithredwr a swyddogion priodol eraill yn rheolaidd
    - Gweithio gyda chyflogeion y Cyngor mewn perthynas â’r weledigaeth strategol a chyfeiriad y Cyngor, swyddogaethau rheoli swyddogion a datblygiad materion polisi
    - Sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithio tuag at fodloni’r cyfyngiadau cyllidebol y mae’n eu hwynebu

- **Arwain partneriaethau a chynnig arweinyddiaeth gymunedol**
    - Arwain ar bartneriaethau strategol lleol ac arwain partneriaid lleol i geisio cyflawni nodau a blaenoriaethau cyffredin
    - Negodi a gweithredu fel brocer pan fydd blaenoriaethau gwahanol ac anghytundebau
    - Arwain y gymuned leol drwy arddangos gweledigaeth a rhagwelediad

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasau**
    - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da’r Cyngor a’i waith
    - Cynnig arweinyddiaeth cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth actif
    - Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
    - Cefnogi, a glynu at, berthnasau parchus, priodol ac effeithiol gyda chyflogeion y Cyngor
    - Ymddangos gerbron pwyllgorau craffu mewn perthynas â materion y portffolio
    - Glynu at God Ymddygiad Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a’r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

3. **Gwerthoedd**

   Ymrwymo i’r gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

    - Didwylledd a thryloywder
    - Gonestrwydd ac unplygrwydd
    - Goddefgarwch a pharch
    - Cydraddoldeb a thegwch
    - Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
    - Cynaliadwyedd
    - Arweinyddiaeth gynhwysol
    - Adeiladu consensws